

"Ydy'r trothwy dal yn bodoli dan y trefniadau cyflog presennol?"

Nid yw hen reolau'r ceisiadau trothwy yn bodoli dan y trefniadau cyflog presennol. Yr ysgol sy'n gyfrifol am greu ei proses ei hun ar gyfer ceisiadau i fynd ar yr Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys sut i wneud cais. Mae hawl gan unrhyw athro i gyflwyno o leiaf un cais mewn blwyddyn ysgol. Gall y pennaeth benodi rhywun arall yn gyfrifol am y broses o asesu ceisiadau.

I gael sgwrs bellach am eich sefyllfa chi, cysylltwch â Swyddog Maes UCAC ar 01970 639 950.